Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

BRITISH STATE PAPERS

PAPURAU'R WLADWRIAETH BRYDEINIG

LLGC NLW

Coroni Alecsander Coronation of Alexander, **Peniarth 481D f. 60v** (pei00364)

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

PAPURAU'R WLADWRIAETH BRYDEINIG

Gall y rhan fwyaf o gofnodion sy'n ymwneud â materion tramor a domestig yn y cyfnod modern cynnar gael eu canfod ym Mhapurau'r Wladwriaeth, Tramor a Phapurau'r Wladwriaeth, Cartref 1500–1782. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion o 1782 ymlaen i'w canfod yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Parhaodd Swyddfa Papurau'r Wladwriaeth hyd 1852 pryd trosglwyddwyd y dyletswyddau i'r Archifdy Gwladol, ac yn 1782 crewyd y Swyddfa Dramor fodern. Nid oedd unrhyw adran yn gyfrifol am gynnal materion tramor Prydeinig cyn y cyfnod hwn. Cyfrifoldeb y Brenin neu'r Frenhines oedd y rhain hyd teyrnasiad y Frenhines Anne pryd y trosglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn yn raddol i weinidogion.

Mae nifer o'r cofnodion wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar y silffoedd agored yn Ystafell Ddarllen y Gogledd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

RHOLIAU SIARTER

Y Rholiau Siarter yw'r cofnod gweinyddol a grewyd gan swyddfa ganoloesol y Siawnsri i gofnodi'r holl siarteri a gyhoeddwyd gan y Siawnsri. Yn nheyrnas ganoloesol Lloegr cychwynnodd y Rholiau Siarter yn 1199. Roedd hyn yn ystod teyrnasiad y Brenin John. Cychwynnwyd y rholiau siarter er mwyn cadw trefn ar lythyrau a ddanfonwyd gan y llywodraeth.

BRITISH STATE PAPERS

Most records relating to foreign and domestic affairs in the early modern period can be found in the State Papers, Foreign and the State Papers, Domestic series covering 1500 to 1782. Most records from 1782 onwards are in the Foreign & Commonwealth Office. The State Paper Office continued until 1852 when its duties were transferred to the Public Record Office, and in 1782 the modern Foreign Office was created. Before this time there was no single department responsible for the conduct of British foreign affairs. These affairs were the responsibility of the King or Queen until the reign of Queen Anne at which time these responsibilities gradually passed to ministers.

Many have been published and are available on open access in the North Reading Room at The National Library of Wales.

CHARTER ROLLS

The Charter Roll is the administrative record created by the medieval office of the Chancery that recorded all the charters issued by the chancery. In the medieval kingdom of England the first Charter Roll was begun in 1199. This was during the reign of King John, and the charter roll was begun in order to keep track of charters that had been issued by the government.

RHOLIAU PATENT

Ffynhonnell greiddiol i hanes Lloegr yw'r Rholiau Patent, cofnod o ohebiaeth Brenin Lloegr, sy'n cychwyn yn 1202. Mae'r rholiau yn cofnodi'r llythyrau patent, neu'r llythyrau brenhinol a ddanfonwyd heb eu selio.

Cychwynwyd y rholiau patent er mwyn cadw golwg ar lythyrau a oedd wedi'u cyhoeddi gan y llywodraeth.

RHOLIAU CAEEDIG

Cofnod gweinyddol a grewyd gan swyddfa ganoloesol y Siawnsri yw'r Rholiau Caeedig, i gofnodi'r holl lythyrau caeedig a ddanfonwyd gan y llywodraeth.

Cychwynwyd y rhol caeedig cyntaf yn 1204 yn ystod teyrnasiad y Brenin John.

RHOLIAU DIRWYO

Mae Rholiau Dirwyo yn cofnodi cynigion o arian i Frenhinoedd Lloegr am gonsesiwn a chymwynasau o'r ddeuddegfed ganrif i'r ail ganrif ar bymtheg. Fel arfer, mae dirwy yn gytundeb sydd wedi ei wneud gyda'r Brenin, neu un o'i brif weinidogion, i dalu swm penodol o arian am elw neu ffafr benodol. Mewn rhai achosion talwyd yr arian yn syth, ond ni ddigwyddai hyn yn aml. Fel arfer, byddai'r cyfansymiau yn cael eu nodi yn y rholiau dirwyo, un ai wedi eu rhoi, neu eu dirwyo, lle'r oedd arian wedi cael ei addo i'r Brenin, ond heb ei gasglu eto. Ni fyddai'r Brenin yn derbyn yr arian yn uniongyrchol fel arfer, ond yn hytrach roedd yn cael ei gasglu a'i dalu i'r Trysorlys yn San Steffan. Mae'r rholiau hyn yn darparu'r dystiolaeth systematig gynharaf – lle mae'r dirwyon

PATENT ROLLS

The Patent Rolls are primary sources for English history and they record the King of England's correspondence, starting in 1202. They record the letters patent, or royal letters issued unsealed.

The patent roll was begun in order to keep track of letters that had been issued by the government.

CLOSE ROLLS

The Close Roll is the administrative record created by the medieval office of the Chancery, to record all the letters close issued by the Chancery.

The first Close Roll was begun in 1204 during the reign of King John.

FINE ROLLS

Fine Rolls record offers of money to the Kings of England for concessions and favours from the twelfth to the seventeenth centuries. In general, a fine is an agreement made with the King or one of his chief ministers, to pay a certain sum of money for a specified benefit. In some cases the sum of money was paid immediately, but this did not happen often. More often than not the sums recorded on the fine roll, whether given or fined for, were monies that had been promised to the King and which had yet to be collected. Moreover, the King did not receive this money directly. Rather it was collected by, and paid into, the Exchequer at Westminster. The rolls on which the fines were recorded provide the earliest systematic evidence of what people and institutions wanted from the King and what he was prepared to give.

yn cael eu cofnodi – o'r hyn roedd pobl a sefydliadau am ei gael gan y Brenin, a'r hyn roedd ef yn fodlon ei roi.

RHOLIAU RHYDDHAU

Mae Rholiau Rhyddhau yn gofnodion o writiau awdurdodi taliadau gan y Trysorlys (a gwritiau eraill sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn gyfrifo); mae eu nifer yn gostwng yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac mae'r gyfres yn dod i ben yn ystod dechrau'r bymthegfed ganrif.

RHOLIAU CYTUNDEB

Mae Rholiau Cytundeb yn ffurfio'r prif gofnod Siawnsri o 1234 ymlaen, yn nodi'r ochr Seisnig o drafodaethau swyddogol, masnachol, diplomyddol a milwrol gyda gwledydd Ewropeaidd, a gweinyddiaeth eiddo Coron Lloegr yng Ngogledd Ffrainc.

RHOLIAU GWASGWYN

Cofnodion y llywodraeth Seisnig yn Acwitania-Gwasgwyn a'r ardal gyfagos yw Rholiau Gwasgwyn, sy'n bodoli o 1273 hyd 1468. Maent yn cynnwys grantiau o dir, llwon cytundebau a dogfennau pwysig eraill.

RHOLIAU SIAWNSRI

Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion cyhoeddus a restrwyd uchod yn perthyn i'r Trysorlys, cangen ariannol y llywodraeth canoloesol. Cedwid nifer fawr o gofnodion gweinyddol eraill gan y Siawnsri yn ei rôl wreiddiol fel ysgrifenyddiaeth frenhinol.

LIBERATE ROLLS

Liberate Rolls are records of writs authorising payments by the Exchequer (and other writs connected with the accounting procedure); their volume decreased in the late fourteenth century, and the series ends in the early fifteenth century.

TREATY ROLLS

The Treaty Rolls form the main Chancery record, from 1234 onwards, of the English side of official dealings, commercial, diplomatic and military, with European countries, and of the administration of the possessions of the English Crown in Northern France.

GASCON ROLLS

The Gascon Rolls are records from the English government of Aquitaine-Gascony and the surrounding area, lasting from 1273 to 1468, containing grants of land, oaths of treaties and other important documents.

CHANCERY ROLLS

Most of the public records listed above are those of the Exchequer, the financial branch of medieval government. Many other administrative records were maintained by the Chancery, in its original role as the royal secretariat.

From the end of the twelfth century the Chancery began to record copies of the documents it produced on several series

O ddiwedd y ddeuddegfed ganrif cychwynnodd y Siawnsri gofnodi copïau o ddogfennau yr oeddent yn eu cynhyrchu fel cyfresi o rholiau. Cynhyrchwyd nifer o gyfresi gwahanol ar adegau gwahanol, ond hwyrach taw'r pwysicaf yw'r Rholiau Patent, y Rholiau Caeedig, y Rholiau Siarter a'r Rholiau Dirwyo.

CALENDAR YMCHWILIADAU POST MORTEM

Mae dogfennau Calendrau Ymchwiliadau Post Mortem ymhlith y cofnodion mwyaf defnyddiol i bobl sy'n ymchwilio hanes teulu. Y rhain yw prif gynhaliaeth yr achau canoloesol traddodiadol. Ymholiadau a wnaed ar ôl marwolaeth prif denant ffiwdal yw'r rhain – hynny yw, tenant uniongyrchol i'r goron – i sefydlu pwy oedd yn dal pa dir, a phwy ddylai etifeddu. Maent yn bodoli o 1240 hyd yr Adferiad yn 1660, pan ddiddymwyd daliadaeth ffiwdal.

LLYFR FFÏOEDD

Adwaenir hwn fel y 'Testa de Nevill' neu'r Llyfr Ffioedd, ac mae'n cynnwys copïau a restrwyd tua 1307 o nifer o gyfrifon a rhestri a gedwir gan y Trysorlys. Mae'r Llyfr Ffioedd yn ffynhonnell bwysig sydd yn ymwneud â deiliadaeth tenantiaid ffiwdal.

CYMHORTHION FFIWDAL

Mae Cymhorthion Ffiwdal wedi eu seilio ar amryw o gyfrifon, enillion, arolygon, a.y.b., ynghyd â chofnodion y Trysorlys. Maent o werth topograffig sylweddol i ddangos olyniaeth deiliaid tir yn Lloegr rhwng y drydedd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif.

of rolls. Various series were produced at different times, but probably the most important are the Patent and Close Rolls, the Charter Rolls and the Fine Rolls.

CALENDAR OF INQUISITIONS POST MORTEM

Inquisitions post mortem are among the most 'genealogist-friendly' of records. They were a mainstay of traditional medieval genealogy. These were inquiries, undertaken after the death of a feudal tenant in chief – that is, a direct tenant of the crown – to establish what lands were held and who should succeed to them. They survive from around 1240 until the Restoration in 1660, when feudal tenure was abolished.

BOOK OF FEES

Known as the 'Testa de Nevill' or Book of Fees, it contains copies entered about 1307 of a number of returns and lists preserved in the Exchequer. The Book of Fees is an important source of information about the holdings of feudal tenants.

FEUDAL AIDS

Feudal Aids are based on various accounts, returns, surveys, etc., among the Exchequer records. They are of considerable topographical value in illustrating the succession of holders of land in England between the thirteenth and the fifteenth centuries.

RHOLIAU MEMORANDA

Cynhaliwyd y Rholiau Memoranda gan Is-Glerc y Brenin ac Is-Glerc yr Arglwydd Drysorydd, ac maent yn cynnwys cofnodion o nodiadau o faterion oedd yn codi naill ai yn ystod archwiliad neu adolygiad o gyfrifon, neu yn nhrefn busnes arferol y Trysorlys, ac yn arbennig am adennill taliadau oedd yn ddyledus i'r Goron.

RHOLIAU CURIA REGIS

Mae'r rholiau yn y gyfres hon yn cofnodi trafodion y Fainc – yn ddiweddarach, fe'i hadweinid fel Plediau Cyffredin – ac yn y llys Coram Rege. Nid yn unig maent yn werthfawr o ran astudio cyfraith ganoloesol Lloegr, mae'r rholiau hyn yn adlewyrchu hefyd fywyd cymdeithasol ac economaidd pob rhan o gymdeithas y cyfnod yn Lloegr.

GWEITHREDOEDD HYNAFOL

Cyfres sydd yn cynnwys dogfennau a oedd yn perthyn yn wreiddiol i archifau preifat neu archifau mynachaidd yw Gweithredoedd Hynafol gan fwyaf. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithredoedd yn drawsgludiadau tir, ond ceir hefyd gyfamodau, bondiau, rhyddhad o ddyled, ewyllysiau a dogfennau eraill sy'n ymwneud ag unigolion.

Cofrestr Edward y Tywysog Du (Register of Edward the Black Prince)

Mae'r gofrestr yn cynnwys llythyrau, gwritiau a gwarantau'r Tywysog, ynghyd â deisebau ac achosion eraill gerbron ei Gyngor.

MEMORANDA ROLLS

The Memoranda Rolls maintained by the clerks of the King's Remembrancer and the Lord Treasurer's Remembrancer contain entries of notes of matters arising either during the viewing or auditing of accounts or in the course of routine Exchequer business, and especially the business of recovering payments owed to the Crown.

CURIA REGIS ROLLS

The rolls in this series record proceedings in the Bench – later known as the court of Common Pleas – and in the court Coram Rege. Apart from their value for the study of medieval English law, these rolls reflect the social and economic life of all classes of contemporary English society.

ANCIENT DEEDS

The series of Ancient Deeds is largely composed of documents which originally belonged to private or monastic muniments. Most of the deeds are conveyances of land but there are also covenants, bonds, acquittances, wills and other documents concerning individuals.

Register of Edward the Black Prince

The register consists of letters, writs and warrants of the Prince, together with petitions and other proceedings before his Council.

PAPURAU'R WLADWRIAETH

Papurau'r Wladwriaeth yw'r prif ddogfennau sydd wedi eu casglu gan swyddfeydd prif Ysgrifenyddion y Wladwriaeth o esgyniad Henry VIII ymlaen.
Maent yn cynnwys:

- Calendar o Lythyrau a Phapurau, Tramor a Chartref, Henry VIII. 1509–1547.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Cartref, Edward VI, Mary, Elizabeth I a James I. 1547–1625.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Cartref, Charles I. 1625–1649.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Y Gymanwlad. 1649–1660.
- Pwyllgor ar gyfer Darparu Arian Ymlaen Llaw. 1642–1656.
- Pwyllgor ar gyfer Compowndio gyda Thramgwyddwyr, a.y.b. 1643–1660.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Cartref, Charles II. 1660–1685.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Cartref, James II. 1685–1689.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Cartref, William III. 1689–1702.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Anne. 1702–1704.
- Papurau'r Swyddfa Gartref, George III. 1760–1775.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Tramor, Edward VI. 1547–1553.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Tramor, Mary. 1553–1558.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Tramor, Elizabeth I. 1558–1589.

STATE PAPERS

The State Papers are in principle the documents accumulating in the offices of the principal Secretaries of State from the accession of Henry VIII onwards.
They include:

- Calendar of Letters and Papers, Foreign and Domestic, Henry VIII. 1509–1547.
- Calendar of State Papers, Domestic, Edward VI, Mary, Elizabeth I and James I. 1547–1625.
- Calendar of State Papers, Domestic, Charles I. 1625–1649.
- Calendar of State Papers, The Commonwealth. 1649–1660.
- Committee for Advance of Money. 1642–1656.
- Committee for Compounding with Delinquents, etc. 1643–1660.
- Calendar of State Papers, Domestic, Charles II. 1660–1685.
- Calendar of State Papers, Domestic, James II. 1685–1689.
- Calendar of State Papers, Domestic, William III. 1689–1702.
- Calendar of State Papers, Anne. 1702–1704.
- Home Office Papers, George III. 1760–1775.
- Calendar of State Papers, Foreign, Edward VI. 1547–1553.
- Calendar of State Papers, Foreign, Mary. 1553–1558.
- Calendar of State Papers, Foreign, Elizabeth I. 1558–1589.

- Rhestr a Dadansoddiad o Bapurau'r Wladwriaeth, Tramor, Elizabeth I. 1589–1591.
- Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Trefedigaethol.

LLYFRAU COFNODION BWRDD MASNACH A PHLANHIGFEYDD. 1704–1782.

Llyfrau cofnodion y 'Lords Commissioners for promoting the Trade of the Kingdom and for inspecting and improving the Plantations in America and elsewhere' yw'r rhain. Prif gyfrifoldeb y 'Lords of Trade' oedd y Trefedigaethau Americanaidd. Mae'r Llyfrau Cofnodion ar gyfer 1675–1704 yn cael eu cynnwys yn y Calendar o Bapurau'r Wladwriaeth, Trefedigaethol, o dan ddyddiadau'r cofnodion.

LLYFRAU A PHAPURAU'R TRYSORLYS

Y 'Papurau' yw gohebiaeth wreiddiol Bwrdd y Trysorlys rhwng 1557 a 1745, ynghyd â chofnodion achlysurol, adroddiadau, a.y.b. Mae 'Llyfrau'r' Trysorlys yn cynnwys nifer o ddosbarthiadau o gofnodion, gan gynnwys Cofnodion y Bwrdd a nifer o gyfresi o lyfrau cofnodi Gwarantau, a.y.b.

- Calendar o Bapurau'r Trysorlys. 1557–1728.
- Calendar o Lyfrau'r Trysorlys. 1660–1718.
- Calendar o Lyfrau a Phapurau'r Trysorlys. 1729-1745.
- List and Analysis of State Papers, Foreign, Elizabeth I. 1589–1591.
- Calendar of State Papers, Colonial.

JOURNALS OF THE BOARD OF TRADE AND PLANTATIONS. 1704–1782.

These are the minute books of the 'Lords Commissioners for promoting the Trade of the Kingdom and for inspecting and improving the Plantations in America and elsewhere'. The main concern of these 'Lords of Trade' was with the American Colonies. The Journals for 1675–1704 are included in the Calendar of State Papers, Colonial, under the dates of the entries.

TREASURY BOOKS AND PAPERS

The 'Papers' are original correspondence of the Treasury Board between 1557 and 1745, together with occasional minutes, reports, etc. Treasury 'Books' comprise a number of classes of records, including the Board's Minutes and several series of entry books of Warrants, etc

- Calendar of Treasury Papers. 1557–1728.
- Calendar of Treasury Books. 1660–1718.
- Calendar of Treasury Books and Papers. 1729–1745.

Peniarth 482D, f.9 r (per00025)

RHOLIAU PIBELL

Cyfrifon incwm brenhinol yw cynnwys Rholiau Pibell y Trysorlys, wedi eu trefnu yn ôl sir ac yn ôl blwyddyn ariannol. Maent yn cynrychioli'r gyfres gynharaf o ddogfennau cyhoeddus sydd wedi goroesi, i bob pwrpas yn barhaus o 1155 hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg; mae un rholyn o 1129–30 hefyd yn bodoli. Roedd copi o bob rholyn pibell – a enwir hefyd yn Rholyn y Canghellor – yn cael ei ddanfon i'r Siawnsri. Daw'r enw anghyffredin – yn wreiddiol fe'i henwyd yn 'Rhôl Fawr y Trysorlys' – o'r ffordd unigryw roedd y memrynau wedi eu gwnïo at ei gilydd, a barai iddynt ymddangos fel darnau o bibellau pan oeddent wedi eu rholio.

Cyfrifon y siryfion yw sail y rholiau pibell cynnar. Maent yn cofnodi gwariant y siryfion, ac yn cynnwys rhestr o'r tir a oedd gynt yn rhan o'r ystadau brenhinol ac a gafodd ei roi i unigolion preifat. Maent hefyd yn cynnwys daliadau ffiwdal a threthi, cofnodion o gosbau ariannol a osodwyd gan yr ynadon, a rhai siarteri cofrestredig.

PIPE ROLLS

The Pipe Rolls of the Exchequer contain accounts of royal income, arranged by county, for each financial year. They represent the earliest surviving series of public records, and are essentially continuous from 1155 onwards until the 19th century; one roll from 1129–30 also survives. A copy of each pipe roll – also known as the Chancellor's Roll – was also sent to the Chancery. The unusual name – officially it began as the 'Great Roll of the Exchequer' – comes from the distinctive way in which the membranes were sewn together, which made them look like pieces of piping when rolled up.

The sheriffs' accounts form the basis of the early pipe rolls. They record expenditure by the sheriffs, and include lists of lands formerly part of the royal estates, which had been given to private individuals. There are also payments of feudal dues and taxes, records of amercements imposed by the justices, and some enrolled charters.

Coronation of King George V, J H F Bacon (gcf01594)

DEUNYDD ARALL O DDIDDORDEB YN Y CASGLIAD

- Calendar Papurau'r Wladwriaeth, Yr Alban.
- Calendar Papurau'r Wladwriaeth, Iwerddon.
- Calendar Papurau'r Wladwriaeth, Carew.
- Calendar Papurau'r Wladwriaeth, Ffrainc.
- Llythyrau a Chofrestri Pabyddol.
- Llythyrau a Chofrestri Pabyddol, Rhufain.
- Llythyrau a Chofrestri Pabyddol, Venice.
- Llythyrau a Chofrestri Pabyddol, Milan.
- Fœdera Rymer.
- Gweithredoedd Cyfrin Gyngor Lloegr.
- Gweithredoedd Cyfrin Gyngor Lloegr. Cyfres Drefedigaethol
- Cofrestr Cyfrin Gyngor Yr Alban.
- Registrum Magni.
- Cofrestr Sêl Gyfrin Yr Alban.
- Rholiau Trysorlys Yr Alban.

GWEFAN ALLANOL O DDIDDORDEB

- State Papers Online

http://gale.cengage.co.uk/state-papers-online-15091714.aspx

FURTHER MATERIAL OF INTEREST IN THE COLLECTION

- Calendar of State Papers, Scotland.
- Calendar of State Papers, Ireland.
- Calendar of State Papers, Carew.
- Calendar of State Papers, France.
- Papal Letters and Registers.
- Papal Letters and Registers, Rome.
- Papal Letters and Registers, Venice.
- Papal Letters and Registers, Milan.
- Rymer's Fœdera.
- Acts of the Privy Council of England.
- Acts of the Privy Council of England, Colonial Series.
- Register of the Privy Council of Scotland.
- Registrum Magni.
- Register of the Privy Seal of Scotland.
- The Exchequer Rolls of Scotland.

EXTERNAL WEB LINK OF INTEREST

- State Papers Online

http://gale.cengage.co.uk/state-papers-online-15091714.aspx

www.llgc.org.uk
gofyn@llgc.org.uk
enquiry@llgc.org.uk
t: 01970 632800